COFNOD O BENDERFYNIADAU'R CYNGOR MEWN CYFARFOD A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR/O BELL DDYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023 AM 16:00

Yn bresennol

Cynghorydd M Jones – Maer

Cynghorwyr

H Bennett, A Berrow, F Bletsoe, S Bletsoe, E Caparros, N Clarke, R Collins, HJ David, C Davies, Chris Davies, P Davies, M Evans, N Farr, P Ford, R Goode, RM Granville, H Griffiths, S Griffiths, DT Harrison, D Hughes, M Hughes, RM James, J Gebbie, P Jenkins, S Easterbrook, J Spanswick, M Kearn, W Kendall, M Lewis, J Llewellyn-Hopkins, R Penhale-Thomas, J Pratt, E Richards, R Smith, I Spiller, T Thomas, G Walter, A Wathan, A Williams, A Williams, I Williams, MJ Williams, R Williams, E Winstanley, T Wood, H Williams, JP Blundell,

Swyddogion:

M Shephard, C Marchant, L Harvey, J Nightingale, K Watson, M Pitman, MA Galvin, C Lord, A Rawlin, J Parsons, R Keepins

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim

Datganiadau o fuddiant

Datganwyd y buddiant canlynol:-

Eitem 1 isod:-

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorwyr T Thomas, S Bletsoe, Alex Williams, H Williams, N Clarke a C Marchant

Eitem 3 isod:-

Buddiant personol gan y Cynghorwyr R Williams, M Evans a J Pratt

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor â'r dyddiad 18 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a manwl gywir.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Premiymau'r Dreth Gyngor - Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag Hirdymor – Canlyniad yr Ymgynghoriad** |
| Penderfyniad: | Y Cyngor:<br><br>• yn nodi'r adroddiad a chanlyniadau'r ymgynghoriad, ac<br>• yn cymeradwyo'r cynnig i weithredu premiymau 100% y dreth gyngor o 1 Ebrill 2023 ar gyfer tai gwag tymor hir, a 1 Ebrill 2024 ar gyfer ail gartrefi, gyda'r ddau'n cynyddu i 200% ar ôl 2 flynedd.<br>• yn nodi y bydd adroddiad pellach ar effeithiau ehangach y premiymau treth gyngor ar ail gartrefi yn cael ei gyflwyno i'r cyngor cyn penderfynu p'un ai i barhau i weithredu'r premiwm o Ebrill 2024 neu beidio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Chwefror 2023 |
| Datgelu Buddiant Rhagfarnus a Phersonol | Fel yr uchod |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Dirprwyaeth Caniatâd i Adeiladau Rhestredig** |
| Penderfyniad | Cymeradwyodd y Cyngor y newidiadau arfaethedig a amlinellir ym mharagraff 4.2 - 4.6 o'r adroddid i'r Cyfansoddiad a chynnig newid i'r ddirprwyaeth a'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion i ychwanegu y gall y Pwyllgor a Swyddogion Penodol gymeradwyo ceisiadau ar gyfer Caniatâd i Adeiladau Rhestredig heb fod angen cyfeirio at Weinidogion Cymru os ydyw, ar unrhyw gais am Ganiatâd i Adeiladau Rhestredig, wedi derbyn cyngor yr Uwch-swyddog Cadwraeth a Dylunio, Moira Lucas, ac wedi glynu wrth gyngor o'r fath. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Chwefror 2023 |
| Datgelu Buddiant Rhagfarnus a Phersonol | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Metrolink Porthcawl** |
| Penderfyniad | Cytunodd y Cyngor i drosglwyddo arian o fewn y Rhaglen Gyfalaf, fel yr amlinellir ym mharagraff 8.4 o'r adroddiad i alluogi'r cynllun Metrolink fynd rhagddo. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Chwefror 2023 |
| Datgelu Buddiant Rhagfarnus a Phersonol | Fel yr uchod |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi** |
| Penderfyniad | Bod yr adroddiad i'w nodi. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 8 Chwefror 2023 |
| Datgelu Buddiant Rhagfarnus a Phersonol | Dim |